

Uchafbwyntiau ClwstwrVerse

00:00:20

Kayleigh Mcleod, Rheolwr Ymgysylltu a Chyfathrebu, Clwstwr

Yn Neuadd y Ddinas ydyn ni heddiw ar gyfer y Clwstwrverse cyntaf erioed sy'n arloesi cyfryngau.

00:00:29

Y Athro Justin Lewis, Cyfarwyddwr, Clwstwr

Felly rydyn ni wedi casglu ein holl brosiectau ynghyd, a phob un cwmni sy ymwneud a'n brosiectau, i ddangos yr hyn maen nhw wedi'i greu i'r byd, beth maen nhw wedi'i gyflawni ar eu taith ymchwil a datblygu, beth maen nhw wedi'i ddysgu, lle gyrhaeddodd nhw a beth yw'r bwriad ar gyfer y dyfodol.

Ac mae'n fath o bair o syniadau newydd, o ddatblygiadau arloesol newydd.

00:00:52

Y Athro Sara Pepper, Prif Swyddog Gweithredu, Clwstwr

Cafwyd cyfleoedd heb eu hail i gymryd rhan yn yr ystod hynod amrywiol o brosiectau sydd wedi bod ar gael. Ac rwy'n meddwl bod cyfle wedi bod hefyd i glywed prif areithiau eithaf anhygoel gan siaradwyr clwstwr a siaradwyr rhyngwladol, a siaradwyr o bob cwr o'r DU.

00:01:08

Kayleigh Mcleod, Rheolwr Ymgysylltu a Chyfathrebu, Clwstwr

Ein nod oedd sicrhau bod clwstwr yn lle y gallai syniadau ffynnu. Ac wrth gerdded o gwmpas ClwstwrVerse heddiw yn Neuadd y Ddinas, rwy'n credu ein bod yn gallu gweld i hynny gael ei wireddu.

00:01:18

Y Athro Justin Lewis, Cyfarwyddwr, Clwstwr

Rwy'n credu bod pobl o'r cwmnïau rydym wedi'u cefnogi wedi gwirioneddol fwynhau'r cyfle i ryngweithio phob math o wahanol bobl.

00:01:26

Kayleigh Mcleod, Rheolwr Ymgysylltu a Chyfathrebu, Clwstwr

Mae'r diwydiant wedi croesawu'r her a chreu cynhyrchion, gwasanaethau a phrofiadau newydd ar gyfer y sgrin a newyddion, ac mae'r dyfodol yn edrych yn gyffrous iawn.

00:01:38

Y Athro Justin Lewis, Cyfarwyddwr, Clwstwr

Rwy'n credu bod angen i ni wneud rhagor o'r gwaith hwn. Er mwyn i rywle fel Cymru fod yn gystadleuol yn fyd-eang. Mae'n rhaid i ni sicrhau chwarae teg ac un ffordd o wneud hynny yw sicrhau bod y cwmnïau'n cael y gefnogaeth a'r arian sydd eu hangen arnynt i gyflawni Ymchwil a Datblygu arloesol.